**EUR(2)02-03(cof)w**

# PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

## COFNODION

| | |
|---|---|
| **Date:** | 9 Hydref 2003 |
| **Amser:** | 09.00 |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol |

**Yn bresennol:**

**Aelodau**

***Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol:***

| | |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Llafur: Delyn |
| Nick Bourne | Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwr: Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

**Gwahoddedigion Sefydlog**

| | |
|---|---|
| Rose D’Sa | ECOSOC |
| Janet Royall | Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |

**Gwahoddedigion**

| | |
|---|---|
| Alun Ffred Jones AC | Cadeirydd, Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad |
| Sir Stephen Wall | Pennaeth, Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet |
| Alison Rose | Pennaeth yr Is-adran, Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet |
| Minister Capitani | Dirprwy Bennaeth, Llysgenhadaeth Gwlad Groeg yn y DU |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Jackie Brown | Pennaeth yr Uned, Rhaglenni Ewropeaidd |
| Gary Davies | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, Brwsel |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**09.02am**

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau buddiant**

1.2 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Daeth ymddiheuriadau i law oddi wrth Rosemary Butler, aelod o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a oedd mewn cyfarfod o Bwyllgor y Rhanbarthau ym Mrwsel, a'r gwahoddedigion sefydlog Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE ac Eluned Morgan ASE. Nid chafwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

**09.03 - 09.33**

**Eitem 2**

**Adroddiad y Gweinidog**

Papurau: EUR(2) 02-03(p1) - Adroddiad y Gweinidog

EUR(2)02-03(p1) – Adroddiad y Gweinidog - Atodiad 1

EUR(2)02-03(p1) – Adroddiad y Gweinidog - Atodiad 2

2.1 Roedd gan y Gweinidog rai pethau i'w hychwanegu at ei adroddiad ysgrifenedig.

2.2. Roedd yr ymweliad ag Estonia a Latfia yn daith wleidyddol ac archwiliol. Yn ystod cyfnod y Cynulliad Cyntaf, roedd Comisiynydd yr UE dros Ehangu wedi annog Cymru i feithrin cysylltiad â'r gwledydd Baltig. Roedd Gweithrediaeth yr Alban eisoes yn meithrin cysylltiadau ag Estonia, ac roedd Latfia'n fwy parod erbyn hyn i feithrin cysylltiadau. Roedd Prif Weinidog Cymru wedi trafod y mater â Phrif Weinidog Lafia. Roedd Latfia'n allweddol i feithrin cysylltiadau masnachol â'r Dwyrain, a hefyd yn barod ar gyfer technoleg newydd. Dywedodd y Pwyllgor ei fod o blaid ffurfioli'r cysylltiad â Latfia cyn gynted â phosibl.

2.4 Nododd Prif Weinidog Cymru y byddai seicoleg darpar-aelodau llai o faint fel Estonia yn newid natur yr UE oherwydd eu profiad o gael iaith, hanes a diwylliant leiafrifol. Roeddent yn pryderu mwy am y problemau ymarferol o gynnal eu hiaith a'u diwylliant yn hytrach na'r syniad o fod yn wladwriaeth annibynnol.

2.3 Yn ystod cyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau Morol ac Ymylol (CPMR) yn St Malo, cyfarfu'r Prif Weinidog â'i swyddog cyfatebol o Lydaw, Llywydd y Cyngor Rhanbarthol, a'i Weinidog Amaethyddiaeth a oedd yn siarad Llydaweg. Roedd Llydaw yn rhanbarth pwysig oherwydd ei sectorau telathrebu a TG, ac fel Cymru roedd ei feysydd diddordeb yn cynnwys amaethyddiaeth, pysgodfeydd, chwaraeon dwr a thwristiaeth. Gallai Cymru elwa o brofiad tebyg Llydaw o dwristiaeth gwyliau teuluol a gweithgareddau antur. Gellir hefyd rhannu profiadau â diwydiant pysgota Llydaw a oedd yn debyg i'r sefyllfa yn Aberdaugleddau ddegawd ac yn wynebu'r un broblem o or-bysgota. Roedd bwyd môr o Orllewin Cymru ar gael mewn bwytai yn Llydaw.

2.4. Diolchodd y Prif Weinidog i bawb a fu'n gysylltiedig ag ymweliad y Comisiynydd Barnier â Chymru ar 26 Medi. Dangosodd cynrychiolwyr y prosiectau yr ymwelodd â nhw pa mor bwysig yw buddsoddiad y Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru. Diolchodd Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd am yr ymweliad ar ran y Comisiynydd - ei eiriau olaf oedd bod arian yr UE yn cael ei wario'n effeithiol yng Nghymru. Nododd un aelod bod yr ymweliad wedi cael rhywfaint o sylw negyddol yn y wasg. Byddai'r Prif Weinidog yn ymchwilio i hyn ac yn paratoi nodyn i'r aelod hwnnw.

2.5. Roedd y Comisiynydd Barnier yn chwilio am gefnogaeth i'w gynigion ar y polisi rhanbarthol ar ôl 2006. Roedd y DU yn chwilio am gefnogaeth i'w chynigion i ailwladoli'r cronfeydd strwythurol. Roedd Sweden a'r Iseldiroedd yn cefnogi cynigion y DU, ac efallai Denmarc hefyd, ond roedd Sbaen yn eu gwrthwynebu'n llwyr. Felly, roedd ansicrwydd a fyddai'r DU yn gallu dod o hyd i gefnogaeth ddigonol i'w syniadau. Roedd y gwledydd newydd am weld rhaglen ar gyfer Ewrop gyfan nad oedd yn eu difrïo fel gwladwriaethau tlotach yr UE. Dywedodd y CPMR ei fod yn frwd o blaid polisi rhanbarthol sy'n seiliedig ar yr UE. Roedd yn bwysig cydnabod y byddai angen i'r cynnig llwyddiannus gael cefnogaeth yr holl wledydd sy'n cyfrannu a fyddai'n talu llawer o arian i mewn i'r cynllun. Roedd rhai

aelodau'n teimlo nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi digon o wybodaeth iddynt fedru llunio barn ynghylch pa gynigion fyddai'n rhoi'r fargen orau i Gymru. Byddai'r mater hwn yn cael ei drafod o dan eitem 6.

2.6 Nodwyd arbrawf CADW i dderbyn yr Ewro mewn rhai atyniadau. Cafodd yr Ewro ei ddefnyddio fwyaf yn yr atyniadau yng Ngogledd Cymru y bu Gwyddelod yn ymweld â nhw. Gofynnir i CADW roi adroddiad i'r Pwyllgor.

**Pwynt Gweithredu:**

- Byddai'r Prif Weinidog yn ysgrifennu at Christine Chapman AC ynghylch y sylw negyddol a gafodd ymweliad y Comisiynydd Barnier yn y wasg.
- Byddai'r Pwyllgor yn cael adroddiad gan CADW ar fanylion ei arbrawf i dderbyn yr ewro mewn atyniadau penodol.

**09.33 – 09.46**

**Eitem 3**

**Cyflwyniad gan Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**

3.1 Soniodd Cadeirydd **Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad** yn fras am waith ei Bwyllgor ar faterion Ewropeaidd, a dywedodd ei fod yn edrych ymlaen at gydweithio mwy â'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn y dyfodol. Roedd yn debyg bod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn trafod mwy ar faterion Ewropeaidd na'r Pwyllgorau Pwnc eraill, gan gynnwys diwygio'r PAC, materion yn ymwneud â'r amgylchedd, cadwraeth ac organebau wedi'u haddasu'n enetig (GMO). Nid oedd materion Ewropeaidd yn eitem ar wahân ar ei raglen waith, am eu bod yn draws-bynciol.

3.2 Roedd angen i'r Pwyllgor fod yn fwy ymwybodol o gynigion polisi Ewropeaidd. Ond nid oes trefn benodol ar hyn o bryd ar gyfer rhoi rhybudd cynnar. Byddai trefn debyg i'r un sydd ar waith yn Senedd yr Alban yn ddefnyddiol.

3.3. Efallai y byddai gallu'r Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc yn cael ei gyfyngu pe baent yn anghytuno â safbwynt Llywodraeth y DU - yr enghraifft orau o hyn oedd y gwahaniaeth barn ar GMO. Nododd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol bod Syr Stephen Wall, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Swyddfa'r Cabinet, yn bresennol ac y byddai wedi nodi'r sylwadau'n ymwneud â'r concordat.

3.4 Roedd yn bwysig bod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn fwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol ar faterion Ewropeaidd yn ymwneud ag amaethyddiaeth a chefn gwlad, am fod cymaint ohonynt yn effeithio ar fywoliaeth pobl yng Nghymru. Roedd angen i'r Cynulliad fod mewn sefyllfa well i ddylanwadu ar y broses o wneud polisïau yn Ewrop. Roedd y cynnydd yn nifer

staff Llywodraeth Cynulliad Cymru yn swyddfa Brwsel yn fodd i gyflawni'r amcan hwn. Bellach, roedd swyddog penodol ar gyfer polisi amgylcheddol, ac roedd gwelliant eisoes yn lefel y wybodaeth a gafwyd gan yr adran. Yn fuan byddai gan Swyddfa'r Llywydd hefyd gynrychiolydd yn swyddfa Brwsel.

3.5 Croesawodd Cadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad y papur ar wasanaeth briffio Ewropeaidd, a fyddai o gymorth mawr i Bwyllgorau'r Cynulliad. Y gobaith oedd y byddai'r system newydd yn helpu i ragweld problemau a allai godi pan fydd deddfwriaeth yn dod i rym - roedd claddu anifeiliaid, rheoliadau sgil-gynhyrchion gwastraff a newidiadau i'r taliadau i ffermwyr Cymru i gyd yn enghreifftiau o'r problemau a gododd wrth weithredu deddfwriaeth.

3.6 Nododd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad hefyd bod gwahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cynnwys ASEau ac Aelodau'r Cynulliad a oedd yn aelodau o Bwyllgor y Rhanbarthau, ac y byddai'n dda cael ymateb anffurfiol ganddynt ar faterion y Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad.

3.7 Cynigiodd Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd (EC) yng Nghymru gymorth i helpu'r Cynulliad i ddylanwadu ar faterion Ewropeaidd. Roedd y Comisiwn yn ceisio gwella ei broses ymgynghori ac roedd y gyfarwyddeb arfaethedig ar gemegau yn enghraifft o hyn - cafodd ei diwygio'n sylweddol ar ôl ymgynghoriad.

**09.46 - 10.25**

**Eitem 4**

**Cydweithio effeithiol rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU**

Papur: EUR(2)02-03(p2) - Rôl UKRep, Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet a'r Concordat

4.1 Soniodd Syr Stephen Wall, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd Swyddfa'r Cabinet, am rôl y swyddfa honno a'r berthynas rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth y Cynulliad. Dyma'r prif bwyntiau a gododd yn ystod y drafodaeth:

- Rôl draddodiadol yr Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd ers i'r DU ymuno â'r UE oedd cyd-gysylltu polisi Llywodraeth y DU - er mwyn dilyn hynt cynigion, dylanwadu ar eu datblygiad, cyd-gysylltu trafodaethau, a lobïo a dylanwadu ar bartneriaid yn y DU a gweithredwyr eraill gan gynnwys ASEau. Y newid mwyaf i'r rôl honno oedd bod mwy o gydbenderfynu'n digwydd, a bod angen i UKRep roi mwy o sylw i Senedd yr UE yn ogystal â'r Cyngor. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth hefyd yn helpu i reoli'r broses sy'n arwain at gyfeirio materion i Lys Cyfiawnder Ewrop mewn achosion o anghydfod.
- Credwyd o'r dechrau y gallai datganoli arwain at wrthdaro ar rai materion, ac roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn gyfrifol am ddelio â hyn. Byddai'n edrych fel methiant ar ran yr Ysgrifenyddiaeth pe cyfeirir materion at Gyd-Bwyllgor Gweinidogion (Ewrop) (JMC(E)) i'w datrys. Ond roedd y JMC(E) bellach yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i edrych ar bolisïau mewn ffordd fwy ragweithiol. Er enghraifft, cyn y Gynhadledd Ryng-lywodraethol (IGC) ar y cytundeb cyfansoddiadol, cyflwynwyd papur Peter Hain ar y Confensiwn gerbron y JMC(E) a'i

gymeradwyo. Wedyn cafodd nifer o'r mesurau i gryfhau rôl y rhanbarthau ym mhroses gwneud penderfyniadau'r EU eu cynnwys yn y Confensiwn drafft.

- Un pwynt a awgrymwyd yn y papur ond na chafodd ei ymgorffori, oedd rheidrwydd cytundebol ar y Comisiwn i ymgynghori'n uniongyrchol â'r rhanbarthau cyn deddfu. Bydd y Prif Weinidog yn mynd i gyfarfod i drafod hyn yr wythnos nesaf, gyda golwg ar ei gyflwyno yn yr IGC.

- Un o ganlyniadau positif y Confensiwn oedd y system i roi rhybudd cynnar mewn perthynas â sybsidiaraeth - os oedd traean o'r Seneddau Cenedlaethol yn gwrthwynebu cynnig byddai hyn yn arwain at leiafrif blocio. Rhaid meddwl am ffordd i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru roi'r system ar waith.
- Roedd Swyddfa'r Cabinet yn barod iawn i weithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ei threfniadau cysylltu am eu bod yn bwysig yn genedlaethol. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth yn awyddus i ddatrys unrhyw broblemau sy'n codi. Serch hynny, roedd y cysylltiad uniongyrchol rhwng Adrannau'r Cynulliad ac adrannau'r llywodraeth ganolog yn hanfodol.
- Heblaw am fân eithriadau, nid oedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi bod mewn sefyllfa o orfod dyfarnu. Byddai tensiwn bob amser yn ymwneud â rhai materion. Diwygio'r PAC er enghraifft, lle byddai angen i Gymru esbonio sut yr oedd ei safbwynt yn wahanol i rannau eraill o'r DU, ond lle byddai'n rhaid dod i gyfaddawd ar safbwynt y DU gyfan. Roedd y ffaith na ddefnyddiwyd y JMC(E) yn yr achos hwnnw yn dangos bod systemau ar waith i Gymru fynegi ei barn.

4.2 Gofynnodd yr Aelodau i Syr Stephen Wall i ba raddau yr oedd adrannau Whitehall yn ymateb yn gadarnhaol i sefyllfaoedd lle'r oedd rhanbathau am gael eu heithrio. Gofynnwyd iddo hefyd a fu angen newid diwylliannol i dderbyn datganoli, ac a oedd y llywodraeth ganolog yn ystyried arferion da o aelod-wladwriaethau eraill. Dywedodd Syr Stephen bod datganoli wedi bod yn newid cyfansoddiadol mawr, a bod biwrocratiaeth yn araf yn addasu weithiau.

4.3 Defnyddiwyd y system ad-daliadau i ffermwyr fel enghraifft lle'r oedd amheuaeth a fyddai'r Cymru'n elwa o ganlyniad i safbwynt y DU. Roedd trafodaethau anffurfiol ar faterion o'r fath yr un mor bwysig a rhai ffurfiol, ac roedd dylanwad o'r bon i'r brig yn hanfodol. I'r perwyl hwn, roedd yn bwysig cael cynrychiolaeth gref ym Mrwsel ac anfon pobl ar secondiad i'r Comisiwn Ewropeaidd. Y rhwydwaith bresennol ym Mrwsel oedd y cyfle gorau i gasglu gwybodaeth a chael gwybod sut yr oedd syniadau'n datblygu. Roedd y gyfarwyddeb arfaethedig ar Gemegau yn enghraifft dda o hyn - roedd wedi newid yn sylweddol o ganlyniad i ddylanwad yr aelod-wladwriaethau. Roedd nifer fawr o gynigion drafft gan yr UE ac nid oedd llawer o amser i ymateb iddynt. Felly, roedd yn hanfodol nodi'r cynigion sy'n bwysig i Gymru yn gyflym.

4.4 O ran manteision ad-daliad y DU i Gymru, roedd Syr Stephen Wall yn teimlo na fyddai 24 o wledydd mor awyddus i'w weld yn cael ei ddiddymu pe na bai'n fanteisiol.

4.5 Roedd Pennaeth yr Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd yn teimlo bod system y DU ar gyfer cytuno ar ei safbwynt yn fwy tryloyw na system aelod-wladwriaethau eraill, a'i bod yn haws cael gwybodaeth o fewn y fiwrocratiaeth. Roedd cyfraniad gweithgar UK Rep yn y trafodaethau ym Mrwsel hefyd yn dangos yn glir ei bod yn bosibl cael gwybodaeth ymlaen llaw. Roedd y gweinyddiaethau datganoledig yn cael eu gwahodd i'r cyfarfodydd wythnosol rheolaidd yn Llundain rhwng yr

Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd a Chynrychiolydd Parhaol y DU ym Mrwsel. Roedd swyddogion y Cynulliad yn penderfynu a fyddent yn mynd i'r cyfarfod ai peidio yn ôl yr agenda yr oeddent yn ei chael ymlaen llawn. Roeddent wedi mynychu llai na deg cyfarfod yn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd yr Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd hefyd yn bwriadu cynnal cyfarfodydd cynllunio mwy rhagweithiol â'r cynulliadau datganoledig er mwyn trafod y materion sydd ar y gweill. Byddai swyddogion o'r Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol yn ceisio cydweithio mwy â swyddogion mewn meysydd polisi eraill, ac roeddent o'r farn bod Swyddfa'r Cabinet o gymorth mawr wrth weithredu polisïau.

4.6 Roedd angen i'r Ysgrifenyddiaeth Ewropeaidd feddwl mwy am y broses o weithredu wrth drafod polisïau. Roedd yn tueddu i ganolbwyntio ar hyrwyddo safbwynt y DU, yn hytrach na mynd ati i gynllunio sut i ddelio â'r canlyniadau. Byddai hyn yn osgoi problemau fel y rhai a gododd wrth weithredu cyfarwyddeb yr UE ar waredu oergelloedd.

4.7 Roedd gan Swyddfa'r Cabinet ddiddordeb yn y trefniadau teiran a ddisgrifiwyd ym mhapur Peter Hain ar gyfer trafod deddfwriaeth drafft. Ond megis dechrau oedd y trafodaethau ar hyn yn y Comisiwn Ewropeaidd.

4.8 Cyflwynodd ECOSOC farn ei bod yn anghyson rhoi hawl i Bwyllgor y Rhanbarthau herio cynigion ar sail sybsidiaraeth swyddogaethol, ond nid ECOSOC. Roedd y cytundeb cyfansoddiadol yn datgan mai ei nod oedd dod â'r dinesydd yn agosach at yr UE. Roedd ECOSOC yn cynrychioli'r gymdeithas sifil ac hefyd mewn'n sefyllfa dda i benderfynu ar sybsidiaraeth. Dywedodd Syr Stephen y bu'n anodd sicrhau'r newidiadau a gymeradwywyd mewn perthynas â sybsidiaraeth, a bod partneriaid yr UE yn gyndyn iawn i fynd ymhellach. Ond, roedd yn bwysig bod y cynigion yn ystyried beth mae'r bobl ei eisiau.

4.9 Roedd Swyddfa'r Cabinet yn gobeithio na fyddai'r amserlen ar gyfer y cytundeb cyfansoddiadol yn cael ei ohirio. Roedd rhai materion wedi dod i'r amlwg eisoes, megis gwrthwynebiad Sbaen a Gwlad Pwyl i'r broses o bwysoli pleidleisiau, ond efallai byddai mwy'n codi. Yn y pen draw, rhaid i bob Llywodraeth Genedlaethol gymeradwyo'r cytundeb, fel nad oes modd i'r broses fod yn ateb cyflym yn unig.

**10.40 - 11.22**

**Eitem 5**

**Blaenoriaethau llywyddiaeth yr Eidal a'r gweithgareddau hyd yma**

5.1 Siaradodd Dirprwy Lysgennad yr Eidal yn y DU, y Gweinidog Capitani, â'r Pwyllgor am flaenoriaethau Llywyddiaeth yr Eidal dros yr UE. Roedd y materion yr oedd yn eu hwynebu yn debyg i'r rhai yr oedd Llywyddiaeth flaenorol gwlad Groeg yn eu hwynebu. Roedd hwn yn gyfnod hollbwysig yn hanes yr UE, yn dilyn llofnodi'r cytundebau derbyn a chyrraedd cam tyngedfennol yn y broses o lunio'r cytundeb cyfansoddiadol. Byddai'r Eidal yn defnyddio'i holl egni i wneud yr UE yn fwy gweladwy ac effeithiol ar y llwyfan byd-eang a chryfhau ei ddimensiwn gwleidyddol.

5.2 Roedd pump prif amcan ar gyfer y llywyddiaeth:

- ***Y Gynhadledd Rynglywodraethol (IGC)*** - roedd yna ymwybyddiaeth bod dulliau gweithredu presennol y Comisiwn yn cael eu beirniadu, ac roedd proses yn mynd rhagddi i ailystyried 'raison d'être' yr UE. Nod yr IGC oedd cael y consensws gwleidyddol mwyaf posibl erbyn mis Rhagfyr a chyflymu'r broses o lofnodi ail Gytundeb Rhufain. Dylid gwneud hyn mewn pryd i sicrhau bod dinasyddion Ewrop yn gallu cymryd rhan yn etholiadau'r Senedd yn 2004 a hynny gan fod yn ymwybodol o gyfansoddiad yr UE yn y dyfodol. Roedd yr Eidal am ddiogelu'r testun y cytunwyd arno ar gyfer y cytundeb drafft a mabwysiadu dull gweithredu 'anghydweld adeiladol', lle na fyddai newidiadau ond yn cael eu cynnig ar ôl cael eu hesbonio'n llawn a bod cynnig mwy ymarferol yn cael ei wneud er budd pawb. Dylai'r broses arwain at fwy na chasgliad llac o aelod-wladwriaethau. Nid creu undeb ffederal oedd y bwriad, ond rhoi fframwaith cyfansoddiadol a statws cyfreithiol llawn i'r UE, er mwyn dod ag ef yn agosach at y dinasyddion a'i wneud yn fwy gweladwy ac awdurdodol.

- ***Economi'r UE*** - rhaid ymateb i ddisgwyliadau'r dinasyddion o ran twf economaidd. Roedd yr Eidal am adfywio ysbryd cystadleuol yr UE, moderneiddio'r marchnadoedd llafur a hyrwyddo mentergarwch. Yng nghyd-destun Agenda Lisbon roedd ganddo dri amcan:

- Ail-ddechrau buddsoddi, mewn seilwaith ac yn y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd yn arbennig, er mwyn datblygu marchnad fewnol yr UE yn dilyn ehangu.
- Cynigiwyd cyflwyno offeryn arloesol newydd ar y cyd â Banc Buddsoddi Ewrop. Byddai'n anelu at wneud buddsoddiadau strwythurol pwysig megis adeiladu coridorau. Teimlir y broblem hon yn fwy mewn rhai gwledydd. Mewn Ewrop fwy byddai'r broblem yn fwy ar draws Ewrop yn gyffredinol. Nid oedd yn glir pryd byddai'n cael ei gyflwyno, ond gorau po gyntaf.
- Cynaliadwyedd y system bensiynau a lles - nodi polisïau sy'n ffafriol i gyflogaeth drwy ddiwygio'r farchnad lafur.

  Roedd yr Eidal am weld twf economaidd parth yr Ewro. Roedd y cytundeb sefydlogrwydd a thwf a chydymffurfio â rheolau masnachu yn parhau i fod yn hollbwysig. Roedd angen gwneud diwygiadau pellgyrhaeddol mewn meysydd eraill fel y PAC i'w wneud yn ariannol ymarferol ac agor y farchnad gan sicrhau bod cynnyrch amaethyddol yn parhau i fod yn ddiogel.

  O ran cydlyniant mewnol, roedd materion fel diogelwch plant, gofal pobl anabl, diogelu'r gymuned a iechyd i gyd yn uniongyrchol berthnasol i ddinasyddion yr UE.

  Nodwyd pwysigrwydd cyfarfod Gweinidogion y WTO yn Nghancun. Er mwyn hybu'r economi a swyddi, roedd angen ail-lansio'r system fasnachu rhwng gwledydd. Dim ond un agwedd ar agenda Doha oedd amaethyddiaeth - rhaid parhau â'r trafodaethau yn y meysydd eraill er mwyn llunio pecyn cytbwys o gytundebau.

- ***Creu Ewrop ehangach*** - rhaid integreiddio wrth i'r UE ymestyn y tu hwnt i'w ffiniau - roedd angen sicrhau bod y gwledydd newydd yn cael mynediad i'r farchnad fewnol a bod rhwydweithiau seilwaith yn cael eu creu. Yn y broses ehangu, byddai'r Eidal yn sicrhau bod yr aelodau newydd yn cyfrannu'n llawn at waith y Cyngor. Roedd wrthi'n llunio'r amserlen ar gyfer derbyn Bwlgaria a Romania erbyn 2007 gobeithio. Roedd hefyd yn paratoi strategaeth ar

gyfer y cyfnod cyn derbyn Twrci a fyddai'n annog diwygiadau'n Ankara ac yn arwain at integreiddio. Byddai'n annog cyfraniad y gwledydd Balcanaidd gorllewinol ac ardaloedd sy'n ffinio â'r undeb. Byddai'r berthynas rhwng yr UE â Rwsia a chenhedloedd eraill Cymanwlad y Gwladwriaethau Annibynnol yn cael ei chryfhau, a byddai'r bartneriaeth Ewro-Ganoldirol yn cael ei hail-lansio.

- ***Presenoldeb Ewrop yn y byd*** - roedd yr Eidal am sicrhau rôl fwy awdurdodol i'r UE ac adfer y cysylltiadau trawsiwerydd cadarn a arferai fodoli ac a oedd yn strategol hanfodol. Nid oedd unrhyw wrthdaro rhwng bod ag ymrwymiad cryf i'r UE a chael perthynas drawsiwerydd gref. Byddai'r Eidal yn mynd ati'n systematig i hyrwyddo democratiaeth a hawliau dynol, cefnogi proses heddwch y Dwyrain Canol, ailadeiladu Irac, gwrthwynebu terfysgaeth ac arfau distryw mawr a chefnogi hunaniaeth gredadwy i'r UE o ran ei bolisi amddiffyn. Cafwyd trafodaeth yn ddiweddarach am rôl y gweinyddiaethau datganoledig wrth yn yr ymdrechion i ailadeiladu Irac.

- ***Diogelwch dinasyddion yr UE*** - o ran ceisio lloches ac ymfudo, bydd effeithiolrwydd yr UE yn cael ei beirniadu gan ei dinasyddion. Ni ddylai'r UE fod yn ddefnyddiwr yn unig ond dylai ddarparu diogelwch hefyd. Rhaid iddo frwydro yn erbyn troseddu cyfundrefnol, masnachu anghyfreithlon a therfysgaeth ryngwladol.

5.3 Fe wnaeth yr aelodau ganmol yr Eidal am ei huchelgais i symud yr UE i ganol y llwyfan. Mynegwyd diddordeb yn yr offeryn buddsoddi a gynigir ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith. Nodwyd bod llywodraethau ac economïau lleol yr Eidal yn gryf iawn. Roedd y rhanbarthau yn aml yn gyfoethocach na'r llywodraeth ganolog oherwydd bod pwerau codi treth wedi'u datganoli iddynt. Roedd yn amlwg o edrych ar gynrychiolaeth ddiplomataidd yr Eidal dramor ei bod yn rhoi pwys mawr ar weinyddiaethau lleol.

5.4 Byddai Prif Weinidog y Cynulliad yn cynrychioli'r DU mewn cyfarfod Gweinidogol ar 'Rôl y Rhanbarthau yn yr UE' yn Rhufain rhwng 16-18 Hydref. Byddai'r cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Weinidog yr Eidal dros Faterion Rhanbarthol, Snr. La Loggia, o ranbarth annibynnol arbennig Sisili. Nod y cyfarfod fyddai cyflwyno siarter ar weinyddiaethau rhanbarthol. Ni fyddai llofnodi'r siarter yn orfodol, ond y gobaith oedd y byddent yn dod i gytundeb gan ystyried y gwahaniaethau rhwng y naill aelod-wladwriaeth a'r llall o ran gweinyddu lleol.

5.5 Roedd yr Eidal yn rhoi pwys mawr ar gysylltu strwythurau gwleidyddol â'r economi. Cychwynnodd yr UE fel cytundeb economaidd a masnachol yn unig a chanfu llawer o wledydd yr UE bod eu datblygiad economaidd yn mynd tuag i lawr. Roedd rhai o amcanion agenda Lisbon heb eu cyflawni, ac roedd arbenigwyr ym Mrwsel yn gweithio ar gyfiawnhau a darparu ar gyfer gwledydd a oedd yn uwch na therfynau'r Cytundeb Sefydlogrwydd ar gyfer dyled fewnol. Roedd yr Eidal yn gweld pwysigrwydd cynnal y Cytundeb Sefydlogrwydd. Roedd trethdalwyr yr Eidal wedi cytuno i ymuno â pharth yr Ewro ar draul bersonol, ac roedd gwleidyddion yn gwybod eu bod o blaid cynnal y Cytundeb, gan gyfyngu ar y llywodraeth ganolog.

**11.22 – 11.56**

**Eitem 6**

**Ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol - y Diweddaraf**

Papur: EUR(2)02-03(p03) - y diweddaraf ar y Cronfeydd Strwythurol

6.1 Siaradodd Prif Weinidog y Cynulliad am ei bapur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ynghylch diwygio'r Cronfeydd Strwythurol. Dim ond dwy neu dair o'r Aelod-Wladwriaethau a oedd wedi cytuno i gefnogi safbwynt y DU ar ddyfodol y polisi rhanbarthol, roedd y rhan fwyaf o'r lleill yn gwrthwynebu'n gryf. Roedd y ddadl o blaid ailwladoli eisoes wedi'i cholli ym Mhwyllgor y Rhanbarthau ac ym Mhwyllgor y Rhanbarthau Morol ac Ymylol. Cafodd y rhan fwyaf o'r ymatebion i gynigion y DU yng Nghymru a Phwyllgor Monitro Amcan 1 Cymru hefyd yn gwrthwynebu. Byddai Prif Weinidog Senedd yr Alban, Jack McConnell yn mynd i gyfarfod anffurfiol nesaf cyngor Materion Rhanbarthol yr UE ar 20 Hydref a byddai safbwynt y DU yn cael ei adolygu eto yn dilyn hynny.

6.2 Roedd Comisiynydd Polisi Rhanbarthol yr UE am weld rhaglen yn cael eu ar gyfer 'rhanbarthau'r effaith ystadegol' fel y'u gelwir. Rhanbarthau fel Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a oedd yn dal i ddioddef anfantais ranbarthol ond na fyddent yn gymwys i gael cyllid ar ôl 2006 oherwydd y bydd gwledydd llai cyfoethog na hwy wedi dod yn aelod. Roedd y pecyn yn gofyn i lywodraethau cenedlaethol gyfrannu ato. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i fod i arwain cyfarfod rhwng rhanbarthau'r 'effaith ystadegol' ond gohiriwyd y cyfarfod hwnnw. Nodwyd y byddai siaradwr ar ran rhanbarthau'r effaith ystadegol yn y cyfarfod nesaf ym Mrwsel.

6.3 Mynegodd rai o Aelodau'r Pwyllgor eu bod yn synnu nad oedd y Cynulliad yn bod yn rhagweithiol yn y grp effaith ystadegol. Dywedodd Prif Weinidog y Cynulliad na fyddai'n briodol i Lywodraeth Cynulliad Cymru gymryd safbwynt penodol ar hyn o bryd. Roedd angen mwy o wybodaeth arni ynghylch pa gynigion fyddai'n rhoi'r fargen orau i Gymru. Nid oedd digon o wybodaeth ar gael ar natur yr hyn a gynigir gan y Trysorlys ac roedd dwy flynedd o drafod ar ôl. Os nad oedd Llywodraeth y DU yn gallu denu digon o wledydd i gefnogi ei chynigion ailwladoli, ac roedd hynny'n edrych yn annhebygol, yna byddai natur y drafodaeth ar Gronfeydd Strwythurol yn newid. Roedd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro'r sefyllfa. Roedd yn debygol mai Cernyw oedd yr unig ardal a fyddai'n aros o fewn categori Amcan 1 yn 2007. Felly'r cwestiwn cyffredinol oedd sut i daro'r fargen orau bosibl i ardaloedd Amcan 1 a 2 Cymru.

6.4 Roedd bwlch mawr rhwng ffigyrau'r Trysorlys o ran faint o arian y byddai Cymru yn ei gael ar ôl 2006 (tua 20 y cant o'r hyn a ddyrennir ar hyn o bryd) a ffigyrau'r Comisiwn Ewropeaidd (80 y cant). Nes byddai'r ffigyrau'n dod yn agosach at ei gilydd, ni fyddai'n bosibl rhoi pwysau ar y Trysorlys ynghylch faint o arian ychwanegol oedd ei angen. Byddai hefyd yn bwysig cymharu'r gwahanol fformiwlâu a gynigir ar gyfer darparu arian.

6.5 Nodwyd y bydd trydydd adroddiad ar Gydlyniant yn cael ei gyhoeddi ar 3 Rhagfyr, sef diwrnod cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor.

6.6 Mewn trafodaeth rhwng y Comisiynwyr yr wythnos gynt, cafodd cefnogwyr y cynigion i ailwladoli eu gorchfygu gan Gomisiynydd Barnier a'i gefnogwyr. Byddai'r Comisiwn yn cyhoeddi adroddiad ar safbwyntiau ariannol newydd ym mis Tachwedd.

6.7 Roedd Janet Davies, sy'n aelod o Bwyllgor y Rhanbarthau, wedi bod yn bresennol mewn cyfarfod o Gomisiwn y Polisi ar Gydlyniant Tiriogaethol, lle'r oedd cynrychiolwyr o bob aelod-wladwriaeth yn bresennol heblaw am Sweden. Fe wnaeth cynrychiolaeth yr Iseldiroedd wrthwynebu ailwladoli, a siaradodd Glannau Merswy a Sir Efrog (ardaloedd Amcan 1 cyfredol) yn gryf yn ei erbyn. Roedd yn bwysig cofio'r darlun cyfan a'r nod o ddod ag economïau'r UE yn agosach atom yn hytrach na chanolbwyntio ar fuddiannau Cymru neu'r DU yn unig.

6.8 Nododd cynrychiolydd ECOSOC ei bod yn bwysig gofyn ar beth y gellid gwario'r arian, yn ogystal â faint o arian fyddai ar gael ac o ble y daethai. Roedd ECOSOC wedi cyflwyno tri opsiwn ar gyfer gweithredu a llywodraethu. Y nod oedd rheoli cronfeydd yn well gan ystyried egwyddor sybsidiaraeth ac ystyried rôl Ewrop, yr aelod-wladwriaethau a'r rhanbarthau. Awgrymwyd mai'r UE ddylai bennu'r strategaeth gyffredinol ac mai'r rhanbarthau ddylai ei gweithredu, gyda'r Aelod-wladwriaethau yn sicrhau bod y cynlluniau'n cael eu rheoli'n iawn. Cynigiwyd hefyd disodli'r hen strwythur raglennu gaeth drwy gontractio'r gwaith i sefydliadau lleol. Cynigiwyd cael un gronfa strwythurol ar sail amlflynyddol gyda chyllideb ddangosol ac sy'n hyblyg. O safbwynt rhanbarthol, gall fod o fudd i Gymru ystyried y meini prawf a'r rheolau ar gyfer defnyddio cronfeydd, ac i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ystyried sut y'u rheolir yn y dyfodol. Byddai Des Clifford yn sicrhau bod barn ECOSOC ar gael i swyddogion eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Pwynt Gweithredu:**

- Des Clifford i ddarparu safbwyntiau ECOSOC ar ddiwygio'r Cronfeydd Strwythurol i swyddogion eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**11.56 - 12.14**

**Eitem 7**

**Craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd**

Papur: EUR(2) 02-03(p4) - Craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y papur ar graffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd a gafodd ei lunio yn dilyn cam gweithredu o'r cyfarfod diwethaf. Roedd y papur yn nodi cynigion i graffu ar ddeddfwriaeth yr UE yn llawer mwy effeithiol, ac yn nodi gweithdrefnau ar gyfer ystyried achosion sy'n tynnu'n groes i egwyddor sybsidiaraeth. Yn ei hanfod roedd y papur yn argymell y dylai'r Cynulliad ddatblygu system i fonitro cynigion drafft yr UE wrth iddynt gael eu llunio. Roedd y papur yn amlinellu sut byddai'r wybodaeth yn cael ei chasglu a'i dosbarthu. Yn unol â'u cylchoedd gorchwyl, fel a nodir yn Rheol Sefydlog 9.8, y pwyllgorau pwnc ddylai arwain y gwaith o graffu ar bolisïau gyda'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol yn cadw trosolwg strategol ar y gwaith.

7.2 Gan gymryd yn ganiataol y cytunir ar y cynigion ar gyfer sybsidiaraeth yn y Cytundeb drafft, y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ddylai arwain y gwaith o ystyried achosion sy'n tynnu'n groes i'r egwyddor sybsidiaraeth. Dylai hefyd ymgynghori â Senedd y DU pan fydd am gyflwyno barn

resymedig ar gynnig. Byddai'n well pe bai'r Pwyllgor llawn yn ystyried achosion yn ymwneud â sybsidiaraeth ac ni fyddai disgwyl i'r rhain godi'n aml. Pe byddai rhai'n codi, dim ond chwe wythnos a ganiateir i gyflwyno gwrthwynebiad. Ystyriodd yr aelodau'r tri opsiwn ym mharagraff 31 yn y papur ar gyfer delio â materion sybsidiaraeth cyn pen terfyn amser o chwe wythnos. Roedd rhywfaint o gefnogaeth i'r syniad o gael pwyllgor rhithwir, ond roedd yna bryder na fyddai hon yn ffordd effeithiol o ymdrin â sefyllfaoedd lle roedd rhai aelodau'n anghytuno'n chwyrn â'i gilydd. Cytunwyd mai'r opsiwn gorau fyddai sefydlu is-bwyllgor. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn rhoi mwy o fanylion ynghylch sut byddai'r is-bwyllgor yn gweithredu. Byddai ei drafodion yn cael eu cynnal mewn modd agored a thryloyw.

7.3 Cytunodd yr aelodau mai Opsiwn 3 yn y papur fyddai'r dull gorau o dreialu proses i graffu ar ddeddfwriaeth yr UE yn rheolaidd. Cytunwyd ar baragraffau 34 a 35 yn y papur, a byddai'r cynllun treialu ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth yn cael ei adolygu maes o law. Croesawodd y Pwyllgor yr adnodd craffu ond dywedodd ei fod yn drueni nad oedd adnodd o'r fath wedi bod ar gael yn gynt. Roedd angen diwygio'r Rheolau Sefydlog i gynnwys esboniad o rôl y Pwyllgor wrth ystyried deddfwriaeth yr UE. Byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn drafftio gwelliant i'r aelodau ei ystyried a byddai Clerc y Pwyllgor yn ei anfon atynt, cyn ei gyflwyno ger bron Panel y Cadeiryddion.

7.4 Roedd gallu Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddehongli gwybodaeth Ewropeaidd yn well ers ehangu'r swyddfa ym Mrwsel. Roedd y gwaith ar gynigion drafft yn y Cynulliad yn gyffredinol wedi bod yn dameidiog. Cafwyd trafodaeth gynhwysfawr ar y Cronfeydd Strwythurol a'r nod bellach oedd ymestyn y drafodaeth i archwilio meysydd fel yr amgylchedd, iechyd a diwylliant. Nid cael gwybodaeth oedd y broblem, ond yn hytrach sut i ddelio â gwybodaeth ar lefel wleidyddol a biwrocrataidd, drwy sicrhau bod Caerdydd, Llundain a Brwsel yn cydweithio. Roedd camau ar y gweill i sefydlu adnodd arbennig ar gyfer yr Aelodau a Swyddfa'r Llywydd ym Mrwsel.

**Pwyntiau gweithredu:**

- Byddai papur yn cynnig diwygio'r Rheolau Sefydlog i gynnwys esboniad o rôl y Pwyllgor mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau iddynt gytuno arno cyn i Glerc y Pwyllgor ei gyflwyno ger bron Panel y Cadeiryddion.
- Byddai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn darparu manylion ynghylch dull gweithredu'r is-bwyllgor sybsidiaraeth i'r Pwyllgor eu hadolygu.
- Cytunwyd ar baragraffau 34 a 35 yn y papur mewn egwyddor a byddai a byddai cynllun treialu i graffu ar ddeddfwriaeth yn cael ei gynnal a'i adolygu gan y Pwyllgor maes o law.

**12.14 - 12.16**

**Eitem 8**

Y **diweddaraf gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau ac Aelodau Senedd Ewrop**

8.1 Bu Janet Davies yn un o gyfarfodydd Pwyllgor y Rhanbarthau yn ymwneud â thrafnidiaeth, ynghyd â'r Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd o ffyrdd, rheilffyrdd a morffyrdd. Tra roedd yno, cododd y mater o gael cysylltiad rheilffordd rhwng Paddington a Gorllewin Cymru. Bwriedir safoni tollau ffyrdd

erbyn 2010. Y bwriad oedd datblygu systemau soffistigedig i atal pobl rhag osgoi talu'r tollau. Ond nid oedd yn glir eto sut effaith fyddai'r cynigion yn ei chael ar Gymru o bosibl.

**12.16 - 12.17**

**Eitem 9**

**Cofnodion y cyfarfod blaenorol a Phapurau i'w Nodi**

Papurau:

- EUR(2) 01-03(min)

- EUR(2) 02-03(p5) - Ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth y DU ar y cronfeydd strwythurol
- EUR(2) 02-03(p6) - Llythyr oddi wrth Carwyn Jones AC ynghylch diwygio'r PAC
- EUR(2) 02-03(p7) – Adroddiad Cynhadledd Senedd Ewrop ar y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop
- EUR(2) 02-03(p8) - Grp rhwydweithio ar ehangu
- EUR(2) 02-03(p9) - Nodyn ar amrywiadau yn ffigurau masnachu Cymru-UE yn adroddiadau diwethaf Prif Weinidog Cymru

9.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.

9.2 Nodwyd bod Cadeirydd y Pwyllgor wedi bod yn bresennol yng Nghynhadledd Senedd Ewrop ar y Confensiwn ac mai'r adroddiad ar y Gynhadledd oedd papur 7.

9.3 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ym Mrwsel ar 13 Tachwedd rhwng 11.10am a 16.35pm

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.17pm.**